**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

2 Mehefin 2023

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mai yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddwy set o reoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt yn 2020 a chyhoeddi'r Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref.

O ran y rheoliadau i nodi plant a allai fod yn colli addysg, mae'r rheoliadau drafft yn cael eu diwygio ar hyn o bryd i gymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2020 ac rwy'n bwriadu ymgynghori ar reoliadau drafft diwygiedig yn gynnar yn 2024.

I gefnogi'r gwaith o weithredu'r rheoliadau, byddaf yn:

- cyhoeddi canllawiau, yng ngwanwyn 2025, yn nodi'r dyletswyddau a osodir ar gyrff o dan y rheoliadau, ynghyd â chanllawiau ynghylch sut y dylai'r gronfa ddata weithredu'n ymarferol;
- cynnal astudiaeth beilot blwyddyn o hyd, gan ddechrau yng ngwanwyn 2025, i asesu effeithiolrwydd y broses o weithredu'r rheoliadau a'r gronfa ddata.

Bydd y Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 12 Mehefin.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.